

Deall effaith bosibl y coronafeirws yng Nghymru

David Hagendyk a Jerome Finnegan

Ebrill 2020

Sefydliad Dysgu a Gwaith

Noddwyr: EHB Y Dywysoges Frenhinol | Prif Weithredwr: Stephen Evans
Cwmni cyfyngedig drwy warant, cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru
Rhif Cofrestru 2603322 Rhif Elusen Gofrestredig 1002775
Swyddfa Gofrestredig: 4th Floor Arnhem House, 31 Waterloo Way,
Caerlŷr/Leicester LE1 6LP



INVESTORS
IN PEOPLE

Silver
Until 2020



Cyhoeddwyd gan Sefydliad Cenedlaethol Dysgu a Gwaith

4th Floor Arnhem House, 31 Waterloo Way, Caerlŷr/Leicester LE1 6LP

Rhif Cofrestru Cwmni 2603322 | Rhif Elusen Gofrestredig 1002775

www.learningandwork.org.uk

@LearnWorkUK

@LearnWorkCymru (Wales)

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo neu drosglwyddiad y cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded sy'n caniatáu copïo cyfyngedig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

Am y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

Rydym yn ymchwilio yr hyn sy'n gweithio, yn datblygu ffyrdd newydd o feddwl ac yn gweithredu dulliau gweithio newydd. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiadau pobl o ddysgu a chyflogaeth. Mae'r hyn a wnawn o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach.

Arhoswch yn wybodus. Cymerwch ran. Ymgysylltwch. Cofrestrwch i ddod yn gefnogwr i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith:

Cyflwyniad

Yn hollol iawn, bu ffocws Llywodraeth Cymru dros yr ychydig wythnosau diwethaf ar ddiwallu her iechyd brys y pandemig coronafeirws. Cyfyngu lledaeniad y feirws ac achub bywydau yw'r flaenoriaeth bennaf oll.

Mae gwaith ar bob lefel o'r llywodraeth hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi busnesau ac unigolion gydag effeithiau economaidd torfol a phersonol yr argyfwng. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ei fod eisoes wedi cael effaith sylweddol ar yr economi ac ar ragolygon cyflogaeth personol miloedd lawer o unigolion yng Nghymru. Er ei bod yn anodd rhagweld yn union ar y cam hwn beth fydd effaith economaidd y coronafeirws gallwn ddweud gyda pheth sicrwydd y bydd yn cyflwyno'r argyfwng economaidd mwyaf difrifol yng nghyfnod llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru i Lywodraeth Cymru a'i holl bartneriaid cymdeithasol.

I ddiwallu'r her cyflogaeth yng Nghymru, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn deall natur yr her a'r grwpiau y mae fwyaf tebygol yr effeithir arnynt er mwyn rhoi blaenoriaeth briodol i fuddsoddiad a chymorth.

Fe wnaethom edrych ar yr Arolwg Gweithlu i asesu pa mor fregus yw'r farchnad lafur yng Nghymru i'r heriau a achosir gan y pandemig coronafeirws ac i ddeall pa grwpiau o weithwyr sydd fwyaf mewn risg yng Nghymru. Cyflwynwn ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn islaw, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar y darlun cyffredinol yng Nghymru, cyn edrych ar rywedd ac oedran.¹

Dengys ein dadansoddiad fod tua un ym mhob pump o'r gweithlu ar ddechrau'r argyfwng yn gweithio mewn 'sectorau sydd wedi cau i lawr' a gafodd eu taro galetaf gan y coronafeirws. Mae hyn yn gyfystyr â bron chwarter miliwn o weithwyr yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos fod yr argyfwng yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod, pobl ifanc a'r rhai gyda'r cymwysterau isaf. Mae'r argyfwng yn peryglu gwrthwneud enillion a sicrhawyd mewn cyflogaeth yng Nghymru yn y degawd diwethaf, a gwrthdroi cynnydd a wnaed tuag at gau'r bwlch cyflogaeth gyda gweddill y Deyrnas Unedig.


Bydd angen i'r ymateb gan lywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan, yn ogystal ag awdurdodau lleol a strwythurau llywodraethiant rhanbarthol tebyg i'r Bargeinion Dinesig, gael eu cydlyn, eu cynyddu o ran maint a bod yn hyblyg. Gyda chaffael cynllun cymorth cyflogaeth newydd a datblygu olynedd i'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF), bydd cyfleoedd i ddatblygu dulliau gweithredu addas. Fel y dengys ein dadansoddiad fodd bynnag mae maint yr her yn ddigynsail yn oes llywodraeth ddatganoledig a bydd angen ymateb sylweddol i barhau i warchod swyddi a helpu pobl yn ôl i waith.

¹ Cyflwynir manylion llawn ein methodoleg a thablau data llawn yn yr atodiad.

Canfyddiadau

Cyn y pandemig coronafeirws roedd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru, a ddangosir yn Ffigur 1, wedi cynyddu o 66.5% yn 2010 i 73.2% yn 2019. Bu'r cynnydd yn gyflymach yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig, gan olygu fod y bwlb hanesyddol mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig wedi culhau yn y ddegawd diwethaf.

Ffigur 1 Cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig, 2004 i 2019



Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol.*


Mae'r dadansoddiad a gyflwynwn yn yr adran ddilynol yn dangos y risgiau y mae'r pandemig coronafeirws yn eu hachosi wrth wrthdroi'r cynnydd hwn. Mae'n dangos y caiff **un ym mhob pump o weithwyr Cymru eu cyflogi mewn sectorau sydd wedi cau i lawr yn ystod y pandemig.**

Mae Ffigur 1 yn dangos y darlun cyffredinol yng Nghymru o gymharu gyda'r sefyllfa yn y cenhedloedd eraill. Dengys bod:

- **Un ym mhob pump (18%), neu chwarter miliwn, o weithwyr yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn sectorau a gafodd eu cau i lawr yn ystod y pandemig,**

- Mae hyn yn fras debyg i'r cenhedloedd eraill yn y Deyrnas Unedig ond pe byddai dim ond un mewn pedwar o'r gweithwyr hyn yn colli eu swydd, byddai'n golygu y **gallai diweithdra yng Nghymru gynyddu i lefel uwch nag a welwyd yn y dirwasgiad diwethaf.**

Ffigur 1 Cyfran gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr yn ôl cenedl²



Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Gweithlu.*

Mae'r ffigurau hyn yn dangos difrifoldeb y sefyllfa yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Ond gwyddom y bydd yr argyfwng yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau, a dyna pam fod ein dadansoddiad hefyd yn chwalu'r ffigurau hyn ymhellach yn ôl rhywedd ac oedran, ac edrychwn ar hyn yn yr adran nesaf.


Mae menywod yn wynebu risg anghymesur ar ddechrau'r argyfwng

Mae Ffigur 2 yn edrych ar y darlun cenedlaethol yn ôl rhywedd, gan ddangos y gyfran o fenywod a dynion mewn sectorau a gafodd eu cau i lawr. Dengys bod:

² Y sectorau sydd wedi cau i lawr yw'r rhai yr effeithir fwyaf arnynt gan y cyfyngiadau symud I atal lledaeniad coronafeirws. Gan adeiladu ar waith Joyce a Xu (2020), fe wnaethom ddefnyddio'r codau SIC 4-digid dilynol: manwerthu heblaw bwyd a nwyddau fferyllol; cludiant; llety a bwyd; teithio; gofal plant; celf a hamdden heblaw 'creadigaeth artistig'; gofal personol heblaw 'angladdau a gweithgareddau cysylltiedig'; gwasanaethau domestig. Fe wnaethom gronni wyth ton o'r Arolwg Gweithlu i ddynodi'r gyfran o bobl a gyflogid cyn yr argyfwng coronafeirws oedd yn gweithio yn y sectorau hyn.

- Un mewn saith (15%) o ddynion yn cael eu cyflogi mewn sectorau a gafodd eu cau i lawr, tra caiff **un ym mhob pump (22%) o fenywod eu cyflogi mewn sectorau a gafodd eu cau i lawr.**

Ffigur 2 Cyfran o weithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Gweithlu*


Gallai'r risg sy'n wynebu menywod pan ddechreuodd yr argyfwng gael effaith ganlyniadol sylweddol ar y bwlch cyflogaeth rhwng y rhywiau. Mae'r bwlch mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng dynion a menywod wedi culhau gan draean ers 2004. Gyda menywod yn fwy tebygol o weithio yn y sectorau a gafodd eu cau i lawr y mae'r argyfwng wedi effeithio mwyaf arnynt, mae risg y caiff y cynnydd hwn ei wrthdroi.

Mae'r gweithwyr ieuengaf yn wynebu heriau sylweddol ar ddechrau eu gyrfaedd.

Dengys ein dadansoddiad hefyd fod oedran yn ffactor hollbwysig yn y risg sy'n wynebu gweithwyr. Mae Ffigur 3 yn dadansoddi'r ffigur cenedlaethol yn yr un ffordd â Ffigur 2, ond yn ôl oedran, gan ddangos bod:

- **Bron ddau mewn tri o'r rhai rhwng 16 a 19 oed (61%) ac un mewn tri (33%) o'r rhai rhwng 20 a 24 oed** mewn risg, uwch nag mewn grwpiau oedran eraill,
- Er bod risg yn gostwng gydag oedran, mae tua un ym mhob pump o'r rhai rhwng 25 a 29 oed (22%) a 30 a 34 oed (19%) yn dal mewn risg.

Ffigur 3 Cyfran gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr yn ôl oedran



Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Gweithlu.*

Mae hyn yn codi pryderon difrifol y bydd y pandemig coronafeirws yn arwain at argyfwng diweithdra ieuenctid yng Nghymru. Mae pobl ifanc mewn mwy o risg o ddiweithdra yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad. Yn dilyn y dirwasgiad diwethaf, cyrhaeddodd diweithdra ar gyfer pobl ifanc 16 – 24 oed frig o 23.5% yn 2012, dros bedair gwaith uwch na'r gyfradd diweithdra ar gyfer rhai 25 oed a throsodd (5.7%). Oherwydd effaith anghymesur y pandemig coronafeirws ar sectorau lle mae pobl ifanc yn tueddu i weithio, gallem weld patrwm hyd yn oed fwy llwm yn ôl oedran y tro hwn.


Gwyddom y gall ychydig flynyddoedd cyntaf oes waith person fod yn hollbwysig ar gyfer eu cyfleoedd yn yr hirdymor ac y gall cyfnod o ddiweithdra di-baid gael effaith niweidiol hirdymor ar ragolygon cyflogaeth ac enillion person ifanc. Mae'r argyfwng yn codi rhwystr enfawr i ragolygon miloedd o bobl ifanc ar adeg pan y dylent fod yn cael eu troed ar yr ysgol, ac yn dechrau datblygu eu profiad. Gallai hyn gael effaith ddybryd ar eu bywydau.

Mae cymwysterau uwch yn gwarchod rhai gweithwyr rhag risg

Yn olaf, mae ffigur 4 yn edrych ar yr un patrymau hyn yn ôl cymhwyster addysgol, sy'n dangos:

- Dim ond **un mewn deg** (11%) o'r rhai gyda chymhwyster lefel 4 ac uwch sydd mewn risg fel canlyniad i'r argyfwng, o gymharu ag un mewn pedwar o rai gyda chymwysterau lefel 3 (26%) neu lefel 2 (26%), ac un mewn pedwar o'r rhai gyda chymwysterau dan lefel 2 (22%).

Ffigur 4 Cyfran gweithwyr mewn sectorau cau sydd wedi cau i lawr yn ôl cymhwyster



Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Gweithlu.*


Rhyngdoriad oedran, rhywedd a chymwysterau yn cynyddu'r risg i rai grwpiau

Fodd bynnag, pe byddem yn edrych ar un grŵp ar ei ben ei hun, gallem gollu sylwi sut mae ffactorau gwahanol yn rhyngdorri i gynyddu'r risg sy'n wynebu pobl yng Nghymru.

Un ffordd o gyfrif am hyn yw drwy edrych ar ryngdoriad oedran a rhywedd. Gwnaiff Ffigur 5 hyn drwy archwilio'r ffigurau ar gyfer dynion a menywod yn ôl oedran, sy'n dangos:

- Mae menywod mewn mwy o risg beth bynnag eu hoedran, gyda dros ddau draean (68%) o fenywod 16 i 19 oed a dwy ym mhob pump (44%) o fenywod 20 i 24 oed mewn risg;
- Mae hyn yn cymharu gyda hanner y dynion (53%) rhwng 16 a 19 oed ac un ym mhob pump (23%) o ddynion rhwng 20 a 24 oed.

Ffigur 5 Cyfran gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr yn ôl rhywedd ac oedran




Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Gweithlu.*

Roeddem hefyd eisiau gwybod sut mae cymwysterau rhywedd ac addysgol yn rhyngdorri, oherwydd y cysylltiadau a ddangosir uchod mewn risg uwch ar gyfer rhai gyda chymwysterau is.

Mae Ffigur 6 yn gwneud hyn drwy edrych yn ôl cymhwyster addysgol ar ba gyfran o ddynion a menywod sydd mewn sectorau sydd wedi cau i lawr. Dengys bod:

- Menywod mewn mwy o risg o weithio mewn sector sydd wedi cau i lawr, heblaw lle mae ganddynt gymhwyster addysgol lefel 4,
- Lle nad oes ganddynt gymhwyster lefel 4, mae un mewn tair o fenywod gyda lefel 3 (33%) neu lefel 2 (30%) ac un ym mhedair (27%) o'r rhai gydag is na lefel 2 mewn risg,
- Menywod heb unrhyw gymwysterau sydd fwyaf mewn risg, gyda dros draean (37%) yn y grŵp mewn risg yma,
- Mae hyn yn cymharu gyda tua un ym mhob pedwar dyn gyda chymhwyster lefel 3 (20%), lefel 2 (20%) neu dan lefel 2 (19%), ac un ym mhob saith heb gymwysterau (16%).

Ffigur 6 Cyfran gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr yn ôl rhywedd a chymhwyster mewn sectorau



Ffynhonnell: *Dadansoddiad Dysgu a Gwaith o'r Arolwg Gweithlu.*

Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu'r angen i ymchwilio'r risg sy'n wynebu gwahanol grwpiau, yn ogystal â'r heriau cyffredinol sy'n wynebu'r farchnad lafur yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos pa mor hanfodol fydd peidio canolbwyntio ar yr her gyffredinol yng Nghymru wrth ymateb yn effeithlon i'r argyfwng ond hefyd sut i gefnogi'r rhai sydd mewn mwyaf o risg.

Atodiad

Y sectorau sydd wedi cau i lawr yw'r rhai y mae'r cyfyngiadau ar symud wedi effeithio mwyaf arnynt er mwyn atal lledaenu coronafeirws. Gan adeiladu ar waith Joyce a Xu (2020), fe wnaethom ddefnyddio'r codau SIC 4-digid dilynol: manwerthu heblaw bwyd a nwyddau fferyllol; cludiant teithwyr; llety a bwyd; teithio; gofal plant; celf a hamdden heblaw 'creadigaeth artistig'; gofal personol heblaw 'angladdau a gweithgareddau cysylltiedig'; gwasanaethau domestig. Fe wnaethom gronni wyth ton o'r Arolwg Gweithlu i ddynodi'r gyfran o bobl a gyflogid cyn yr argyfwng coronafeirws oedd yn gweithio yn y sectorau hyn

Mae'r tabl islaw yn cyflwyno'r ystadegau sylfaenol llawn o'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn y siartiau uchod, yn cynnwys lefelau hyder uwch ac is.

Grŵp	Rhywedd	% yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau i lawr	% yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau i lawr (hyder is)	% yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau i lawr (hyder uwch)	% gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr	% gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr (hyder is)	% gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cau i lawr (hyder uwch)
Rhywedd							
Menywod		15.0%	14.6%	15.5%	42.8%	42.6%	43.0%
Dynion		21.8%	21.3%	22.3%	57.2%	57.4%	57.0%
Oedran							
16-19 oed		60.8%	61.6%	60.2%	12.7%	12.9%	12.6%
20-24 oed		33.4%	32.5%	34.2%	18.0%	18.1%	17.9%
25-29 oed		22.0%	21.0%	22.8%	14.0%	14.2%	13.9%
30-34 oed		19.3%	18.3%	20.1%	11.7%	11.9%	11.6%
35-39 oed		11.7%	10.8%	12.6%	7.1%	7.0%	7.2%
40-44 oed		11.6%	10.6%	12.5%	6.5%	6.4%	6.6%
45-49 oed		11.9%	10.9%	12.7%	7.6%	7.5%	7.7%
50-54 oed		12.9%	12.0%	13.7%	9.0%	9.0%	9.0%
55-59 oed		14.0%	13.0%	14.8%	8.5%	8.4%	8.5%
60-64 oed		13.4%	12.2%	14.5%	4.9%	4.7%	5.1%

Cymwysterau							
Dan NQF Lefel 2		22.2%	21.2%	23.1%	11.3%	11.1%	11.5%
NQF Lefel 2		25.7%	24.9%	26.4%	23.0%	23.4%	22.7%
NQF Lefel 3		25.7%	25.0%	26.4%	26.2%	26.8%	25.8%
NQF Lefel 4 ac uwch		10.6%	10.0%	11.1%	23.7%	24.0%	23.3%
Dim cymwysterau		23.8%	22.6%	24.8%	6.8%	6.5%	7.1%
Cymwysterau eraill		19.5%	18.2%	20.6%	6.4%	6.0%	6.7%
Prentisiaethau crefft		13.4%	11.6%	14.8%	2.5%	2.2%	2.8%
Oedran a rhywedd							
16-19 oed	Gwryw	52.6%	53.0%	52.3%	5.2%	5.2%	5.2%
16-19 oed	Benyw	68.3%	70.1%	67.0%	7.5%	7.7%	7.3%
20-24 oed	Gwryw	23.1%	21.7%	24.2%	6.4%	6.3%	6.4%
20-24 oed	Benyw	44.2%	43.3%	45.0%	11.6%	11.9%	11.4%
25-29 oed	Gwryw	19.6%	18.2%	20.8%	6.9%	7.0%	6.8%
25-29 oed	Benyw	24.8%	23.5%	25.9%	7.1%	7.3%	7.0%
30-34 oed	Gwryw	14.4%	13.0%	15.6%	4.7%	4.6%	4.7%
30-34 oed	Benyw	24.8%	23.5%	25.9%	7.0%	7.3%	6.9%
35-39 oed	Gwryw	9.7%	8.3%	10.8%	3.0%	2.9%	3.2%
35-39 oed	Benyw	14.0%	12.7%	15.1%	4.0%	4.1%	4.0%
40-44 oed	Gwryw	10.1%	8.6%	11.3%	2.9%	2.8%	3.1%
40-44 oed	Benyw	13.3%	11.9%	14.5%	3.6%	3.5%	3.6%
45-49 oed	Gwryw	11.2%	9.8%	12.4%	3.6%	3.5%	3.7%
45-49 oed	Benyw	12.5%	11.2%	13.7%	4.0%	3.9%	4.0%

50-54 oed	Gwryw	11.0%	9.7%	12.1%	3.8%	3.7%	3.9%
50-54 oed	Benyw	14.7%	13.5%	15.8%	5.2%	5.2%	5.1%
55-59 oed	Gwryw	10.8%	9.4%	12.0%	3.4%	3.3%	3.5%
55-59 oed	Benyw	17.5%	16.2%	18.7%	5.1%	5.1%	5.0%
60-64 oed	Gwryw	13.8%	12.0%	15.3%	2.8%	2.6%	2.9%
60-64 oed	Benyw	13.0%	11.1%	14.4%	2.1%	1.9%	2.2%
Cymwysterau a rhywedd							
NQF Lefel 4 ac uwch	Gwryw	9.9%	9.1%	10.6%	10.2%	10.3%	10.1%
NQF Lefel 4 ac uwch	Benyw	11.2%	10.4%	11.9%	13.5%	13.9%	13.1%
NQF Lefel 3	Gwryw	19.6%	18.6%	20.5%	10.6%	10.8%	10.4%
NQF Lefel 3	Benyw	32.7%	31.7%	33.5%	15.6%	16.2%	15.2%
Prentisiaethau crefft	Gwryw	10.2%	8.2%	11.7%	1.7%	1.4%	1.9%
Prentisiaethau crefft	Benyw	35.8%	32.9%	37.2%	0.9%	0.6%	1.0%
NQF Lefel 2	Gwryw	20.4%	19.2%	21.5%	8.7%	8.8%	8.7%
NQF Lefel 2	Benyw	30.4%	29.4%	31.3%	14.3%	14.8%	13.9%
Dan NQF Lefel 2	Gwryw	18.7%	17.1%	20.0%	5.3%	5.1%	5.5%
Dan NQF Lefel 2	Benyw	26.7%	25.3%	27.8%	6.0%	5.9%	6.0%
Cymwysterau eraill	Gwryw	16.0%	14.2%	17.4%	3.5%	3.2%	3.7%
Cymwysterau eraill	Benyw	26.6%	24.5%	28.2%	2.9%	2.6%	3.1%
Dim cymwysterau	Gwryw	15.6%	13.8%	17.1%	2.8%	2.5%	3.0%
Dim cymwysterau	Benyw	37.1%	35.9%	38.0%	4.1%	3.9%	4.2%